# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2395 |
| Committee | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Date | 08/11/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr John C. Morgan (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Guest)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Guest)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Guest)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Guest)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Guest)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Guest)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Guest)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Richard Bridge (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5459 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5460 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |

| | |
|---|---|
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Collins, M. Cross a G.A. Davies. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5461 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5474 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5563 |
| Item Title | Drafft Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022/23 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau o'r cynigion a gynhwysir o fewn drafft adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Er ei fod yn cefnogi gwaith y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol, credai Aelod na ddylai Aelodau fod yn gosod eu lefelau eu hunain o gydnabyddiaeth ariannol. Teimlai'n gryf na fedrai gefnogi'r cynnydd a gynigir oherwydd y sefyllfa yng nghyswllt COVID-19, cynnig tâl isel o 1.75% y Llywodraeth i'r Cyngor ac i weithwyr GIG oedd wedi rhoi eu hunain mewn risg drwy gydol y pandemig a theimlai fod gweithlu Prydain yn gyffredinol wedi ei drin yn wael. Ategodd ar ran y grŵp na fedrai gefnogi'r cynnydd hwn a gobeithiai y byddai'r sylwadau hyn yn cael eu hanfon yn ôl i'r panel cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer eu trafodaethau.<br><br>Cytunodd Aelod gyda sylwadau ei gydweithiwr a dywedodd na fedrai gefnogi'r cynnydd, a theimlai y gallai sefyllfa COVID a'r mesurau llymder roi pwysau ar gyllidebau blynyddol. Holodd am y gyllideb gyda gostyngiad yn nifer cynghorwyr o 42 i 33 fis Mai nesaf. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol, yn seiliedig ar 33 aelod etholedig o fis Mai 2022 ac ychwanegu ar y cynnydd cyflog arfaethedig y mae o fewn y gyllideb bresennol, fodd bynnag pe na chytunid ar y cynnydd arfaethedig byddai arbediad i'r Awdurdod. Ni fyddai'r union ffigurau yn hysbys tan ar ôl etholiadau Mai 2022. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd y caiff pob adroddiad o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu cyflwyno i'r Cyngor llawn am benderfyniad ac y cyflwynir drafft adroddiad y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i gyfarfod llawn nesaf y Cyngor.<br><br>Dywedodd Aelod y gallai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wneud argymhellion o amgylch y gwahanol bwyntiau yn yr adroddiad ac aiff yr argymhellion hyn yn ôl i'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i'w trafod ynghyd ag argymhellion gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Cyflwynir y cynnig terfynol i'r Cyngor llawn yn gynnar yn 2022.<br><br>Dywedodd Aelod arall nad oedd yr adroddiad wedi ystyried etholwyr Blaenau Gwent ac effaith COVID, ni fedrai gefnogi'r cynnydd hwn tra bod gweithwyr gofal cartref ar isafswm cyflog a nyrsys wedi cael cynnig cynnydd cyflog o lai na 2%.<br><br>Teimlai Aelod arall, gyda'r gostyngiad yn nifer y cynghorwyr yn yr etholiad nesaf, ei bod yn anghywir i gynyddu cyflogau. Cytunodd hefyd gyda sylwadau ei gyd-aelod a dywedodd na fedrai gefnogi'r cynnydd gyda rhai pobl yn ennill yr isafswm a chyflog tebyg i yrwyr bws ar gyflogau isel. Fe wnaeth Aelodau eraill hefyd gymeradwyo'r sylwadau hyn.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurhad ar uwch gyflogau. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol fod Aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog o unrhyw NPA neu FRA y cawsant eu penodi iddo, maent yn parhau i fod yn gymwys i hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth yn unig. Byddai Band 3 yn medru cynnig cyflog gan yr NPA neu FRA y cânt eu penodi iddo.<br><br>Yng nghyswllt hyfforddiant TGCh, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth yr Aelodau eu bod wrthi'n paratoi rhaglen gynefino ar gyfer y Cyngor newydd ym mis Mai ac mae TGCh yn rhan allweddol o'r rhaglen honno.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol heblaw am y gynnydd cyflog arfaethedig i Aelodau etholedig a hefyd yr aelodau a gyfetholwyd, mae'r holl fanylion eraill yn yr adroddiad yn parhau yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd cynigiodd Aelod argymell nad yw'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r cynnydd mewn cydnabyddiaeth ariannol fel y'u nodir yn nrafft gynigion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23; fodd bynnag caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor i ystyried pob agwedd arall o'r adroddiad.<br><br>Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol CYTUNWYD argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef nad yw'r Pwyllgor Gwasanaethau |

| | |
|---|---|
| | Democrataidd yn cefnogi'r cynnydd mewn cydnabyddiaeth ariannol a nodir yn y ddrafft gynigion ar gyfer 2022/23, fodd bynnag cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor ar gyfer ystyriaeth holl agweddau eraill yr adroddiad. |